# XRtistiaid - Cwestiynau Cyffredin

| CWESTIWN | ATEB | THEMA |
|---|---|---|
| **1. A oes angen i bartneriaid consortiwm fod yn Sefydliad Addysg Uwch?** | Na, nid oes angen i bartneriaid consortiwm fod yn Sefydliad Addysg Uwch, gallant ddod o'r sector masnachol neu ddiwylliannol. Rhaid i sefydliad arweiniol y consortiwm fod yn gymwys ar gyfer cyllid UKRI. | **Partneriaid consortiwm/Cymhwysedd** |
| **2. A all sefydliad fod yn rhan o'r consortiwm os nad yw'n gorff ymchwil, ac a fydd yn cael cyllid i dalu costau ymchwil a datblygu?** | Gall, mae sefydliadau nad ydynt yn gyrff ymchwil yn gallu cymryd rhan fel un o bartneriaid consortiwm a gallant dderbyn cyllid ar gyfer eu cyfranogiad mewn gweithgareddau XRtistiaid, gan gynnwys ymchwil a datblygu os yw'n cyfrannu at gyflawni amcanion XRtistiaid, gan sefydliad arweiniol y consortiwm.<br><br>I ddod yn bartner consortiwm, dylai eich sefydliad geisio cysylltu â sefydliadau cymwys yn eich rhwydweithiau a allai fod yn debygol o wneud cais fel arweinydd y consortiwm.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am gymhwysedd sefydliadau yn yr adran 'Pwy all ymgeisio' ar dudalen galwad XRtistiaid lle ceir hefyd gyngor penodol i bartneriaid:<br><br>*'Gall partneriaid consortiwm o sefydliadau diwylliannol a'r sector masnachol sy'n cyfrannu at ddarparu gweithgareddau XRtistiaid dderbyn arian gan sefydliad canolbwynt arweiniol y consortiwm i dalu am eu cyfranogiad.* | **Partneriaid consortiwm/Cymhwysedd** |

| | | |
|---|---|---|
| | *'Dim ond unwaith y gallwch chi geisio i fod yn sefydliad canolbwynt arweiniol, ond efallai y byddwch yn cael eich enwi fel partner ar sawl cais arall.'* | |
| **3. Gan fod hyfforddiant sgiliau yn allweddol i'r alwad hon, a ellid dyrannu unrhyw ran o'r cyllid datganoledig i gefnogi bwrsariaethau i dalu am golli incwm y gallai unigolyn neu gwmni ei gael drwy ddilyn hyfforddiant?** | Gellir ystyried bwrsariaethau wedi'u targedu mewn rhai amgylchiadau fel rhan o gynnig hyfforddiant pan gaiff ei ddefnyddio, er enghraifft, i greu cyfleoedd neu ddileu rhwystrau i grwpiau sydd yn nodweddiadol heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y mathau o gyfleoedd hyfforddi y mae XRtistiaid yn eu cynrychioli. Disgwylir y byddai'r bwrsariaethau hyn yn dod o'r dyraniad ar gyfer gweithgareddau cefnogi consortiwm (uchafswm o 40% - £2.4 miliwn).<br><br>Bydd adolygwyr sy'n gymheiriaid yn asesu a yw'r gwariant arfaethedig ar fwrsarïau yn briodol, ac yn gyfystyr â gwerth am arian, yn ôl y cais unigol. | **Cyllid datganoledig (costau)** |
| **4. Os yw fy mhrifysgol yn arwain consortiwm neu'n aelod ohono, a allaf gymryd rhan fel ymchwilydd seiliedig ar ymarfer unigol os nad wyf yn gyflogedig gan y Brifysgol?** | Bydd unrhyw bartneriaid sy'n rhan o'r consortiwm llwyddiannus yn anghymwys i wneud cais am gyllid datganoledig. Fodd bynnag, os nad ydych yn gyflogedig gan y Brifysgol ac nad ydych yn bartner ar y consortiwm, byddech chi a/neu eich sefydliad yn gymwys i wneud cais am gyllid datganoledig. | **Cyllid datganoledig - cymhwysedd** |

| | | |
|---|---|---|
| **5. Er na all partneriaid consortiwm eu hunain gael mynediad at y cronfeydd datganoledig, a fyddai derbynwyr y cyllid datganoledig wedyn yn gallu ei wario ar wasanaethau unrhyw un o sefydliadau partner y consortiwm?** | Gall hyn fod yn bosibl, ond ni fyddem yn disgwyl triniaeth ffafriol ac rydym yn disgwyl i'r angen gael ei gyfiawnhau fel y defnydd gorau o arian a gwerth i'r rhaglen fesul achos, mewn trafodaeth â'r consortiwm llwyddiannus. | **Cyllid datganoledig – gwariant ar wasanaethau partner consortiwm** |
| **6. A oes cyfyngiad ar faint o geisiadau y gellid cynnwys IRO (Sefydliad Ymchwil Annibynnol) ynddynt?** | Nid oes cyfyngiad ar nifer y cynigion y gellid cynnwys yr IRO ynddynt, fodd bynnag dim ond unwaith y gallant wneud cais i fod yn lletywr y consortiwm (sefydliad arweiniol).<br><br>Mae hyn ar y dudalen galwad yn 'Pwy all ymgeisio': 'Dim ond unwaith y gallwch chi geisio i fod yn sefydliad canolbwynt arweiniol, ond efallai y byddwch yn cael eich enwi fel partner ar sawl cais arall.' | **Cymhwysedd (ar gynigion lluosog)** |
| **7. A fydd yna unrhyw fecanweithiau neu weithdrefnau y mae'n rhaid i'r consortiwm eu rhoi ar waith o ran defnyddio cyllid datganoledig, neu a fydd yn gallu rhedeg y galwadau o ran ymchwil a datblygu yn annibynnol?** | Bydd angen i'r consortiwm ystyried sut y caiff y cyllid datganoledig ei ddyrannu drwy broses adolygu ac asesu briodol. Mae'r prosesau hyn i'w cynnig gan y consortiwm llwyddiannus mewn trafodaeth â'r cyllidwyr ond rhaid i ddyraniad y cronfeydd datganoledig fod yn deg ac yn dryloyw ac o fewn y canllawiau a nodir yn egwyddorion asesu a gwneud penderfyniadau Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI).<br><br>Mae 3 lefel o ddyfarniadau datganoledig – dyfarniadau ar raddfa fach yw'r lefel mynediad ac mae'n bosibl y gallent gael eu pennu gan aelodau'r consortiwm eu hunain. Gall fod yn briodol i'r dyfarniadau prototeip a dilynol fod â rhywfaint o adolygiad allanol lle gall y cyllidwyr neu gynghorwyr arbenigol nad ydynt yn rhan o'r consortiwm roi cyngor. | **Cyllid datganoledig (gweithdrefnau)** |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn unol ag amcanion y rhaglen, bydd angen ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddylunio'r mecanweithiau cyllido a'r prosesau gwneud penderfyniadau. | |
| **8. A oes unrhyw ddisgwyliadau o ran cydbwysedd cymharol rôl y prif sefydliad mewn perthynas â'r sefydliadau eraill yn y consortiwm?** | Bydd trefniadau'n cael eu gweithio allan o fewn pob consortiwm ar adeg gwneud y cais, yn unol â'r hyn y gall pob partner consortiwm, gan gynnwys y sefydliad arweiniol, ei gynnig i gefnogi cyflawniad amcanion y rhaglen. Dylai'r rolau hyn fod yn briodol i sicrhau bod amcanion y rhaglen yn cael eu cyflawni'n effeithiol. | **Sefydliad arweiniol (perthynas â chonsortiwm)** |
| **9. A oes disgwyliad y bydd pob rhan o'r DU yn elwa'n gyfartal gan fuddsoddiad a gweithgarwch XRtistiaid?** | Nid oes disgwyl y bydd pob rhan o'r DU yn elwa'n gyfartal gan y rhaglen XRtistiaid. Fodd bynnag, dylai'r cyfleoedd fod ar gael i'r un graddau i sefydliadau ac ymarferwyr creadigol lle bynnag y maent yn y DU. Mae cyfansoddiad gofynnol y consortiwm yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd darpariaeth XRtistiaid yn lledaenu dyfarniadau a buddion ar draws pedair gwlad y DU.<br><br>Mae rhai gofynion o ran sut y gellir dosbarthu'r cyllid datganoledig ar draws y pedair gwlad, a fydd yn cael eu trafod gyda'r consortiwm llwyddiannus. | **Gweithgarwch rhanbarthol** |
| **10. Beth sydd o fewn a thu allan i'r cwmpas ar gyfer cymorth consortia ac ar gyfer cyllid datganoledig, er enghraifft: Treftadaeth, Cerddoriaeth, Llwyfan, Cyfryngau Sgrin, Gemau ac Animeiddio ac ati?** | Mae pob agwedd ar y sector creadigol a diwylliannol o fewn cwmpas ar gyfer cymorth consortia a chyllid datganoledig. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl i'r sector gemau masnachol, er enghraifft, fod yn un o brif fuddiolwyr y cynllun hwn, sydd wedi'i anelu'n fwy at y sector celfyddydau a diwylliant nid er elw. | **Cwmpas y meysydd pwnc** |

| | | |
|---|---|---|
| **11. A oes unrhyw fformatau a ffefrir ar gyfer allbynnau i'w cefnogi gan gonsortia a chyllid datganoledig, er enghraifft: pensetiau VR, gosodiadau, technolegau penodol?** | Nid oes unrhyw fformatau allbwn a ffefrir. Dylai allbynnau fod yn berthnasol i amcanion yr alwad ac uchelgeisiau creadigol yr ymgeiswyr ac mae hyblygrwydd i'r consortiwm ymateb i hyn. Disgwyliwn weld ystod o wahanol fathau o arbenigedd technolegol o fewn y consortiwm. | **Allbynnau (fformatau)** |
| **12. A oes ffafriaeth i'r Digwyddiad Arddangos Blynyddol fod yn ddigidol neu wyneb yn wyneb?** | Y disgwyl fyddai digwyddiad wyneb yn wyneb gydag opsiwn hybrid, i gefnogi'n llawn gynhwysiant ac ymgysylltiad. | **Digwyddiad arddangos blynyddol** |
| **13. A allai'r digwyddiad arddangos gael ei gysylltu i gyd-destun gŵyl dechnoleg neu gyd-destun celfyddydol?** | Gallai'r digwyddiad arddangos blynyddol, o bosibl, fod yn rhan o ddigwyddiad sefydledig arall pe bai achos digon cryf yn cael ei wneud ynglŷn â sut y byddai hyn yn helpu i gyflawni amcanion yr arddangosfa a phe bai'n cael ei frandio'n glir fel digwyddiad arddangos XRtistiaid.<br><br>Yn ogystal â'r digwyddiad arddangos blynyddol, byddai aelodau'r consortiwm neu fuddiolwyr y dyfarniadau hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau neu gynadleddau sefydledig perthnasol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a dosbarthu arloesiadau ymgolli newydd a alluogir gan raglen XRtistiaid. | **Arddangos** |
| **14. Ar gyfer galwadau AHRC blaenorol (Creative Clusters, CoStar ac ati) mae ymgeiswyr wedi gofyn am lythyrau cefnogaeth gan gyrff cyllido celfyddydau/creadigol cenedlaethol. A yw hynny'n ddichonadwy ar gyfer y rhaglen hon?** | Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl, ni ddylid gofyn am lythyrau cefnogaeth gan gyrff cyllido celfyddydau/creadigol cenedlaethol sy'n ariannu'r rhaglen hon (Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Creative Scotland ac AHRC).<br><br>Fodd bynnag, mae angen llythyrau (neu e-byst) cefnogaeth gan bob partner consortiwm a phob partner sydd wedi'i enwi a restrir yn y cais, yn dangos eu cyfraniad. Mae'r rhain i'w cyflwyno mewn un ddogfen yn y cais. Gweler yr adran 'Sut i wneud cais' ar y dudalen galwad. | **Ceisiadau (llythyrau cefnogaeth partneriaid prosiect)** |

| | | |
|---|---|---|
| **15. Beth yw eich teimlad am y cydbwysedd rhwng yr amcan i fod yn wirioneddol gynhwysol a'r angen i gyflawni'r holl allbynnau yr ydych wedi'u nodi?** | Bydd gofyn i'r consortiwm llwyddiannus adeiladu rhaglen ariannu wirioneddol gynhwysol. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod mesurau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant rhagweithiol yn cael eu cynnwys yn strwythur y consortiwm a'i weithgareddau ar lefel sylfaenol.<br><br>Dangosol yw nifer yr allbynnau yn y dogfennau galwad ac mae rhyddid i gynigwyr gynnig ffigurau amgen os ydynt yn teimlo bod cyfiawnhad drostynt er mwyn cyflawni'r rhaglen yn effeithiol. | **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** |
| **16. A yw'r rhaglen gymorth yn darparu cyfleoedd i artistiaid unigol?** | Ydy. Bydd rhaglen XRtistiaid yn datblygu llif o gyfleoedd ariannu i gefnogi sefydliadau ac unigolion ar wahanol raddfeydd a lefelau profiad. | **Cyllid datganoledig (unigolion)** |
| **17. A oes angen i'r dyfarniadau cyllid datganoledig fod yn ddilyniannol (e.e. a oes angen gwneud cais am ddyfarniadau prototeip yn dilyn dyfarniadau lefel mynediad ac ati)?** | Na, bydd y rhaglen yn cefnogi datblygiad ar wahanol lefelau profiad, ond ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr fod wedi derbyn cyllid lefel mynediad er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cyllid Prototeip. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer derbynwyr XRtistiaid blaenorol y bydd cyllid Dilynol ar gael. | **Cyllid datganoledig** |
| **18. A oes uchafswm nifer partneriaid o fewn consortiwm?** | Nid oes uchafswm nifer partneriaid, naill ai ledled y DU nac mewn gwlad benodol. Bydd angen i gonsortia ystyried sut y bydd partneriaid yn cael eu rheoli'n realistig, yn ogystal â pha adnoddau ac arbenigedd y gall pob partner eu cynnig.<br><br>Bydd angen cynnwys llythyrau cefnogaeth ar gyfer pob partner consortiwm, wedi'u fformatio mewn un ddogfen a'u hatodi i'r cais. | **Partneriaid consortiwm** |
| **19. A yw'r lefel mynediad wedi'i hanelu at y sector technoleg neu greadigol?** | Mae rhaglen XRtistiaid wedi'i chynllunio'n bennaf i gefnogi'r sectorau creadigol a diwylliannol. Dylai cymhwyster ar gyfer cyllid datganoledig adlewyrchu nodau ac amcanion rhaglen XRtistiaid. Fodd bynnag, gallai dyluniad gweithgareddau lefel mynediad gynnwys cyfleoedd i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol gydweithio â phartneriaid yn y sector technoleg. | **Cyllid datganoledig (dyfarniadau lefel mynediad)** |

| | | |
|---|---|---|
| **20. Sut byddai'r rhaglen hon yn cael ei gwahaniaethu oddi wrth CreativeXR a Creative Industries Clusters?** | Mae rhaglen XRtistiaid yn adeiladu ar y llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd gan y partneriaid ariannu o raglenni megis y Creative Industries Clusters a CreativeXR.<br><br>Mae gan XRtistiaid ffocws lefel mynediad nad oedd yn wir am CreativeXR a'i nod yw cefnogi arbrofi creadigol a datblygu sgiliau a gwybodaeth dechnolegol o lefel mynediad i fyny. Mae nod hefyd i gefnogi adeiladu ecoleg y tu hwnt i, ac ar draws, ffiniau rhanbarthol | **Perthynas XRtistiaid â rhaglenni eraill** |
| **21. Ble mae'r gelfyddyd yn y syniadaeth y tu ôl i'r rhaglen hon?** | Mae rhaglen XRtistiaid wedi'i hanelu at ymchwil a datblygu creadigol o fewn y sector celfyddydau a diwylliant a bydd allbynnau'r gweithgarwch a ariennir yn adlewyrchu gweledigaeth greadigol a dyheadau'r cyfranogwyr. | **Cylch gwaith rhaglen XRtistiaid (agwedd Celfyddydau)** |
| **22. Os oes gan y Partneriaid gyllid eisoes gan Gyngor y Celfyddydau, a ellir ei gynnwys fel arian cyfatebol.** | Na. Ni ellir defnyddio cyllid a dderbyniwyd o ddyfarniadau blaenorol Cyngor y Celfyddydau fel arian cyfatebol. | **Partneriaid (arian cyfatebol)** |
| **23. A yw technolegau eraill sy'n dod i'r amlwg o fewn cwmpas, gan gynnwys, er enghraifft, deallusrwydd artiffisial?** | Mae XRtistiaid yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau ymgolli ond mae'r cyllidwyr yn awyddus i annog y consortiwm i gefnogi arbrofi gyda thechnolegau eraill sy'n dod i'r amlwg sydd â defnydd creadigol, i'r graddau y gallai'r consortiwm gael mynediad at yr arbenigedd priodol. | **Rhaglen XRtistiaid (cwmpas)** |
| **24. A yw hyfforddiant a sgiliau yn cael eu talu ar gyfradd o 100% neu 80%?** | Os caiff ei ddarparu gan brifysgol, fel rhan o gonsortiwm, byddai hyfforddiant fel arfer yn cael ei dalu ar 80% o'r gost economaidd lawn. | **Hyfforddiant a Sgiliau (costau)** |
| **25. A allaf wneud cais fel ymgeisydd arweiniol, ond nodi'r sefydliad arweiniol fel partner gwahanol?** | Na. Dylai'r ymgeisydd arweiniol fod wedi'i leoli yn y sefydliad arweiniol. | **Sefydliad arweiniol yn y consortiwm** |
| **26. A oes modd cofrestru diddordeb mewn dod yn bartner i gonsortia?** | Crëwyd arolwg i helpu ymgeiswyr i rannu manylion at ddiben adeiladu consortiwm, fodd bynnag, mae'r arolwg bellach wedi cau. | **Adeiladu consortiwm** |

| | | |
|---|---|---|
| **27. A oes angen profiad blaenorol o redeg rhaglenni ariannu?** | O fewn pob consortiwm dylai fod profiad blaenorol priodol o redeg galwadau ariannu, neu raglenni tebyg. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn eich cais a bydd yn rhan o'r gallu rheoli a fydd yn cael ei asesu yn ystod adolygiad gan gymheiriaid. | **Consortiwm (profiad blaenorol o raglenni ariannu)** |
| **28. A fydd gan raglen XRtistiaid unrhyw gysylltiadau uniongyrchol â rhaglen flaenorol a ariannwyd gan AHRC (Costar, Creative Industries Clusters ac ati)?** | Nid oes gan raglen XRtistiaid unrhyw gysylltiadau uniongyrchol ag unrhyw raglenni blaenorol a ariannwyd gan AHRC. Byddai derbynwyr grantiau AHRC sy'n gysylltiedig â rhaglenni o'r fath yn gymwys i wneud cais i fod yn rhan o XRtistiaid, fel y bo'n briodol. | **Rhaglen XRtistiaid (perthynas â rhaglenni eraill)** |
| **29. A oes ail gam i'r broses adolygu ceisiadau?** | Yn dilyn adolygiadau gan gymheiriaid o'r holl geisiadau, bydd panel cymedroli yn asesu'r ceisiadau yn seiliedig ar yr adolygiadau ac yn gwahodd yr ymgeiswyr â'r sgïau uchaf i gyfweliad. Bwriedir cynnal cyfweliadau yn ystod mis Tachwedd | **Proses ymgeisio (camau adolygu)** |
| **30. Beth fydd llwyddiant ar ddiwedd y rhaglen.** | Hoffem i'r ymgeiswyr gynnig hyn fel rhan o'u cais. Ar y brif lefel, caiff llwyddiant ei fesur yn ôl pa mor dda y mae'r consortiwm yn bodloni amcanion yr alwad. | **Rhaglen XRtistiaid** |
| **31. A oes angen i bartneriaid ddod o'r DU?** | Oes, mae angen i bartneriaid consortiwm fod wedi'u lleoli yn y DU ar gyfer y cyfle hwn. Gellid dod â chyfranwyr rhyngwladol i mewn i ddarpariaeth y rhaglen i gyfrannu at amcanion (e.e. fel mentoriaid, neu i gyfrannu at gyfnewid gwybodaeth yn ymwneud â meysydd fel ariannu rhyngwladol neu gyd-gynhyrchu). | **Partneriaid consortiwm** |
| **32. A ddylai fod gan yr arweinydd prosiect fwy o arbenigedd mewn XR neu'r celfyddydau a diwylliant?** | Disgwylir i'r consortiwm gynnig amrywiaeth eang o arbenigedd ym meysydd XR a'r celfyddydau a diwylliant. Byddai arweinydd prosiect gyda naill ai gefndir Celfyddydau neu XR yn gymwys ar gyfer y rôl. | **Arweinydd consortiwm** |
| **33. Mae meini prawf galwad yn nodi gofyniad i gynnwys Gweithdai, mentoriaid a chyllid ar gyfer cynhyrchu - a yw'r gost hon yn rhan o'r gyllideb cyllid datganoledig neu wedi'i chostio o'r 40% sy'n weddill o'r gyllideb?** | Gan dybio eich bod yn golygu cynhyrchu allbynnau creadigol, byddai hyn yn cael ei gymryd o'r gyllideb ariannu datganoledig. Disgwylir y byddai cronfeydd consortiwm (y 40% sy'n weddill) yn talu am weithdai a mentoriaid fel rhan o'u pecyn hyfforddiant a ddarperir gan y rhaglen. | **Cyllid datganoledig** |
| **34. A oes angen i bartneriaid o Loegr gwmpasu 2 ranbarth yn Lloegr? (Neu dim ond os yw 1 yn Llundain)?** | Rhaid i'r consortiwm gynnwys partneriaid mewn dau ranbarth yn Lloegr. | **Partneriaid consortiwm** |

| | | |
|---|---|---|
| **35. Pwy sy'n berchen ar yr eiddo deallusol ar allbynnau creadigol y llinynnau cyllid datganoledig?** | Y disgwyl yw mai'r ymgeisydd am gyllid/crewyr fydd yn berchen yr eiddo deallusol. Mae cyngor ar hawliau/eiddo deallusol yn bwnc y dylid ei ystyried o fewn y cynnig hyfforddiant ar gyfer XRtistiaid a ddarperir gan y consortiwm, yn enwedig ar gyfer y rheini a allai fod yn creu eiddo deallusol yn y maes XR am y tro cyntaf. | **Eiddo Deallusol Creadigol** |
| **36. A oes potensial i ddefnyddio cyllid datganoledig ar gyfer 'adeiladu cymuned' ac ymyriadau eraill?** | Mae'r cyllid datganoledig (lleiafswm o 60%) i'w ddefnyddio i ariannu prosiectau creadigol ar y lefel Mynediad; Prototeip a lefelau ariannu Dilynol fel y disgrifir ar y dudalen galwad. Disgwylir y byddai ffrydiau gwaith y tu allan i hyn, gan gynnwys adeiladu cymuned, yn cael eu hariannu drwy'r arian sy'n weddill (uchafswm o 40%). | **Cyllid datganoledig (defnyddio cyllid ar gyfer ymyriadau eraill)** |
| **37. Beth yw'r rhesymeg dros gefnogi 225 o brosiectau? Ai'r ystyriaeth o effaith ac etifeddiaeth y rhaglen yw mynd am nifer fawr o ddyfarniadau llai yn hytrach na nifer llai o ddyfarniadau mwy?** | Y rhesymeg yw cefnogi'n fras ar draws y DU a darparu dyfarniadau ar lefel mynediad, i'r rheini sydd ag ond ychydig neu ddim profiad technoleg ymgolli. Dangosol yw'r ffigurau ar y dudalen galwad a gall pob cais consortiwm gynnwys rhesymeg i newid eu cyfansymiau. | **Cyllid datganoledig (rhesymeg)** |
| **38. A oes unrhyw ymchwil i ddod o'r cyllid datganoledig?** | Byddai disgwyl i gyllid datganoledig dalu am amser a chostau cynhyrchu. Mae'r dyfarniadau lefel mynediad a phrototeip yn canolbwyntio'n gynhenid ar Ymchwil a Datblygu, gan eu bod yn ceisio ariannu ymchwil a datblygu ar raddfa fach a gweithgareddau prototeipio yn y drefn honno.<br><br>Gweler yr adran ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano ar y dudalen galwad i gael rhagor o fanylion am yr hyn a ddisgwylir gan y cyllid datganoledig. | **Costau ymchwil** |
| **39. Yn y ddogfen galwad, mae'n nodi 4,000 o eiriau ar gyfer y cais, fodd bynnag yn y ffurflen gais mae'n dweud 2,000 o eiriau. A allwch chi gadarnhau?** | Y nifer cywir o eiriau ar gyfer yr adran hon yw 4,000. Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at gamgymeriad ar y dudalen galwad a ddylai fod wedi'i gywiro bellach.<br><br>Os ydych chi'n dal i gael anhawster, cysylltwch â heh@ahrc.ukri.org | **Proses ymgeisio** |

| | | |
|---|---|---|
| **40. Mae ein sefydliad yn fwy addas ar gyfer cyllid datganoledig. Sut fyddwn ni'n cael gwybod am y rhain a phryd y bydd ceisiadau ar agor?** | Mae'r consortiwm llwyddiannus i fod i ddechrau o 1 Chwefror 2024. Ar ôl cyfnod sefydlu cychwynnol, bydd y consortiwm yn hysbysebu eu cyfle ariannu datganoledig agored yn ddiweddarach yn 2024.<br><br>Cyhoeddir dyfarniad llwyddiannus y consortiwm drwy wefan AHRC. | **Cyllid datganoledig (ceisiadau)** |
| **41. Rydym yn rhan o brifysgol sy'n datblygu technoleg ymgolli. A oes angen 5 sefydliad arnom yn ein consortiwm?** | Oes, mae'n ofynnol i gael o leiaf 5 sefydliad i greu consortiwm cymwys, gan gynnwys y sefydliad arweiniol y mae'n rhaid iddo fod yn gymwys i dderbyn cyllid UKRI. Cyfeiriwch at y meini prawf cymhwysedd a ddarperir ar y dudalen galwad. | **Cymhwysedd consortiwm** |
| **42. Ein bwriad yw gwneud cais i un o'r camau ar gyfer prosiect technoleg arloesol. Beth ddylem ei wneud nesaf - a ddylem fod yn bartner?** | Mae croeso i chi fod yn bartner yn y consortiwm ond bydd gwneud hynny yn gwneud eich sefydliad yn anghymwys ar gyfer cyllid datganoledig. Bydd rhagor o fanylion am gyfleoedd cyllid datganoledig yn cael eu cyhoeddi yn 2024.<br><br>Dylai'r penderfyniad terfynol ar y consortiwm llwyddiannus fod ar gael ar wefan AHRC tua diwedd 2023. | **Partneriaid consortiwm** |
| **43. Ni all partneriaid y DU ddod o'r un rhanbarth. Beth yw diffiniad rhanbarth a'r rhesymeg ar gyfer y penderfyniad hwn?** | Rhoddir enghreifftiau o ranbarthau yn Lloegr ar y dudalen galwad ac maent yn cyfeirio at y pum ffin ardal ACE: sydd hefyd ar gael ar wefan Cyngor Celfyddydau Lloegr. Yn ehangach, y rhesymeg yw caniatáu i bartneriaid helpu i gyflawni amcanion y rhaglen, gan sicrhau lledaeniad ar draws y DU. | **Dyraniad rhanbarthol** |
| **44. Mae manyleb yr alwad yn nodi bod angen i'r rhaglen gynnwys hyfforddiant lefel mynediad. A ddylai hyn fod yn berthnasol i'r dyfarniadau prototeip a dilynol?** | Dylai'r Consortiwm geisio cefnogi pob lefel o'r dyfarniad, gan gynnwys trwy becyn hyfforddiant. Rydym yn disgwyl y byddai gan sefydliadau wahanol anghenion hyfforddiant ar wahanol gamau o brofiad a chyllid. Mae hyfforddiant a dysgu yn debygol o fod yn bwysig iawn ar y lefel mynediad. | **Cyllid datganoledig (lefelau dyfarniadau)** |
| **45. Mae'n ymddangos bod nodau'r ymchwil yn cael eu hysgogi'n gryf gan y farchnad. A fyddai** | Dylai'r consortiwm ganolbwyntio ar gynnal ymchwil a mapio a fydd yn cefnogi mabwysiadu a gweithredu technolegau ymgolli creadigol o fewn y sector celfyddydau a diwylliant ledled y DU. | **Ymchwil (cwmpas)** |

| | | |
|---|---|---|
| **lle ar gyfer ymchwil sy'n cael ei ysgogi'n fwy gan seicolegol?** | | |
| **46. Os yw Ymchwil a Datblygu'r BBC yn bartner, a yw'n IRO ac a fyddai'n cael ei ystyried i fod yn Llundain neu ranbarth Manceinion?** | Nid yw'r BBC yn IRO cymwys ond gallai fod yn bartner consortiwm. Byddai ei ranbarth yn dibynnu ar ble mae ei weithgaredd at ddibenion y consortiwm wedi'i ganoli fwyaf. Fel arall, fel sefydliad cenedlaethol, gellid cynnwys y BBC yn ychwanegol at y partneriaid rhanbarthol sy'n rhan o'r consortiwm. | **Partneriaid consortiwm (cymhwysedd)** |
| **47. Roedd y cyflwyniad gweminar yn canolbwyntio ar gefnogaeth llawr gwlad ond a ellid anelu cefnogaeth hefyd at sefydliad canolig neu fawr?** | Mae ffocws ar gefnogi sefydliadau llai, ond y pwynt yw annog pobl a sefydliadau sydd â phrofiad cyfyngedig o gynnwys ymgolli. Byddai sefydliad canolig neu fawr sydd â phrofiad cyfyngedig blaenorol o gynhyrchu XR hefyd yn gymwys ar gyfer cyllid datganoledig ar lefel mynediad, er enghraifft. | **Cyllid datganoledig (cymhwysedd)** |
| **48. Sut mae'r cyllidwyr yn cyfrannu at y rhaglen; pa mor ymarferol fydd eu cyfraniad?** | Fe fydd yna Fforwm cyllidwyr a fydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r consortiwm, a fydd yn darparu cyllid a'r gefnogaeth ac yn cynnal cyfarfodydd, i drafod materion yn ymwneud â llywodraethu a darpariaeth y grant gyda'r consortiwm.<br><br>Gallai cyllidwyr hefyd gefnogi'r broses adolygu gan gymheiriaid ar gyfer rhywfaint o'r cyllid datganoledig.<br><br>Yn gyffredinol, bydd ganddo rôl hyd braich a chefnogol, gan eiriol dros y rhaglen a'i hyrwyddo. Mae gan y cyllidwyr hefyd bresenoldeb ym mhob un o'r pedair gwlad ac felly byddant yn gallu darparu rhywfaint o arweiniad sy'n benodol i'r rhanbarth. | **Rôl y Cyllidwyr (ar ôl dyfarnu)** |
| **49. I wneud y prototeipiau, byddai angen amser stiwdio. Beth yw dadansoddiad y cymorth gan y consortiwm; a allwn ddisgwyl i'r consortiwm ddarparu cyfleusterau ar gyfer datblygu prototeip?** | Er mwyn cefnogi datblygiad prototeip dylai'r consortiwm ddarparu mynediad at fentoriaid, gweithdai a chyfleusterau yn ogystal â chyllid ar gyfer cynhyrchu. Dylai manylion y cymorth hwn gael eu pennu gan y consortiwm a bydd yn cael ei asesu drwy adolygiad gan gymheiriaid. | **Cyllid datganoledig/cymorth Consortiwm (datblygu prototeip)** |

| | | |
|---|---|---|
| **50. A yw colegau Addysg Bellach yn gymwys fel partneriaid?** | Ydyn, gallent fod yn bartner consortiwm os gallant gynnig yr arbenigedd sydd ei angen o fewn y consortiwm. | **Partneriaid consortiwm (cymhwysedd)** |